**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

1 Awst 2024

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Gorffennaf ynglŷn â'r cynigion ar gyfer newidiadau ychwanegol i Brotocol Proses y Gyllideb a'r gweithdrefnau cyllidebol cysylltiedig. Mae'r cynigion diweddaraf hyn yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

Yn hytrach nag ymateb i'r cynigion ychwanegol hyn ar wahân, rwy'n credu y byddai'n briodol eu hychwanegu at y set o faterion y mae ein swyddogion wrthi'n eu trafod. Yn amodol ar y trafodaethau hynny ar lefel swyddogion, rwy'n siŵr bod meysydd y gallem gytuno arnynt o ran cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

Rwy'n gweld yn eich amserlen arfaethedig fod y Pwyllgor yn bwriadu cytuno ar adroddiad a'i roi gerbron y Senedd yn gynnar yn 2025. Byddwn yn disgwyl mai dim ond y diwygiadau y byddwn wedi gallu cytuno arnynt a fyddai'n cael eu cynnwys yn y cynnig yn gofyn am gymeradwyaeth i fersiwn newydd o Brotocol Proses y Gyllideb. Drwy wneud hyn, gellid disgwyl y byddai pob plaid yn cefnogi'r adroddiad yn y cyfarfod llawn.

Yn ei datganiad i Senedd y DU ar 29 Gorffennaf, cyfeiriodd y Canghellor at y Bil Cyfrifoldeb Cyllidebol i gryfhau'r fframweithiau cyllidol a gwariant. Ymrwymodd i un digwyddiad cyllidol mawr y flwyddyn ac amserlen ar gyfer adolygiadau gwariant. Byddwn yn ystyried beth fydd goblygiadau hyn i'n hamserlen gyllidebol ein hunain ac yn ei ystyried yng nghyd-destun y trafodaethau sydd ar y gweill gennym am Brotocol y Gyllideb.

Rwy'n edrych ymlaen at glywed am ganlyniad cadarnhaol i drafodaethau ein swyddogion ar y materion hyn ac ar gynigion eraill ar gyfer newidiadau i'r Protocol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution and Cabinet Office**